
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Polisi Di-Fwg Myfyrwyr

CYNNWYS


1. Rhagarweiniad ........................................................................ 2
2. Diben.................................................................................... 2
3. Cwmpas ................................................................................ 2
4. Polisi..................................................................................... 2
5. Cymorth i roi'r gorau i ysmygu .................................................. 3
6. Camddefnyddio Polisi ............................................................... 3
7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill............................... 3

## 1. Rhagarweiniad

1.1. O dan ddeddfwriaeth ddi-fwg y DU, ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw weithle caeedig, adeilad cyhoeddus na thrafnidiaeth gyhoeddus yn y DU.

1.2. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi bod pob ardal / eiddo cyhoeddus a gweithle caeedig neu sylweddol gaeedig ynghyd â cherbydau gwaith yn dod o dan y categori sy'n nodi na chaniateir ysmygu.

1.3. Hefyd, rhaid gosod arwyddion 'Dim Ysmygu' mewn eiddo a cherbydau di-fwg.

## 2. Diben

2.1 Diben y polisi hwn yw sicrhau amgylchedd di-fwg i'r rheiny sy'n gweithio, astudio neu'n ymweld ag adeiladau y mae'r Brifysgol yn meddu arnynt neu'n eu rheoli a sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth ddi-fwg y DU.

2.2 Mae'r polisi hwn yn unol â deddfwriaeth ddi-fwg Cymru a Lloegr.

## 3. Cwmpas

3.1. Mae'r polisi yn berthnasol i holl fyfyrwyr y Brifysgol tra byddant mewn unrhyw adeilad y mae'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr yn berchen arno neu'n ei reoli.

3.2. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw pobman wedi'i gynnwys yma, pob ardal addysgu, swyddfeydd, neuaddau preswyl, ardaloedd bar, ardaloedd bwyta, cyfleusterau cynadledda, eiddo Undeb y Myfyrwyr neu ardal gaeedig neu sylweddol gaeedig arall. Mae hyn yn cynnwys adeileddau dros dro fel pebyll mawrion ac ati yn ogystal â cherbydau y mae'r Brifysgol yn berchen arnynt neu'n eu prydlesu.

3.3. Mae'r ddeddfwriaeth ddi-fwg yn ymwneud yn benodol ag ysmygu tybaco sy'n cynnwys ysmygu sigaréts, pibau, sigarau, sigaréts llysieuol a phibau dŵr (a elwir yn aml yn bibau *hookah* neu *shisha*).

3.4. O dan ddeddfwriaeth ddi-fwg ni fydd unigolion yn troseddu pe baent yn defnyddio e-sigarét mewn lleoliad sy'n un di-fwg. Fodd bynnag, at ddibenion y polisi hwn, mae'r Brifysgol wedi penderfynu bod defnyddio e-sigaréts neu unrhyw offer arall cysylltiedig ag ysmygu sy'n cynhyrchu mwg yn dod o dan ofynion y polisi hwn.

## 4. Polisi

4.1. Ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw adeilad neu gerbyd y mae'r Brifysgol yn berchen arnynt neu'n eu rheoli gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u hurio neu brydlesu ar ran y Brifysgol. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed pe bai'r cerbyd yn cael eu ddefnyddio gan un unigolyn.

4.2. Dim ond mewn mannau ysmygu dynodedig y caniateir ysmygu.

4.3. Ni chaniateir ysmygu yn yr ardaloedd o gwmpas drysau adeiladau nag yn agos i ffenestri er mwyn lleihau'r niwsans a/neu'r risg i iechyd a achosir i eraill.

4.4. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn glir wrth a thu mewn i fynedfeydd eiddo'r Brifysgol a cherbydau'r Brifysgol i hysbysu unigolion bod rhaid cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddi-fwg.

## 5. Cymorth i roi'r gorau i ysmygu

5.1. Mae'r Brifysgol yn annog pob unigolyn sy' dymuno rhoi'r gorau i ysmygu. Ymhlith y ffynonellau gwybodaeth a chymorth mae:

- Togetherall – e-fodwl rhad ac am ddim i helpu lleihau a rhoi'r gorau i ysmygu.
- NHS Support
- CYSYLLTU – Adnoddau, prosiectau a gweithgareddau llesiant a arweinir gan y Brifysgol

## 6. Camddefnyddio Polisi

6.1. Dylai unigolion sy'n dymuno tynnu sylw at bryderon ynghylch achosion posibl o dorri'r polisi hwn godi'r mater gyda'r Swyddfa Academaidd.

6.2. Dylid hysbysu'r Rheolwr Llety a'r ymgynghorydd diogelwch tân ynghylch unrhyw achosion o ysmygu honedig mewn neuaddau preswyl.

6.3. Os na fydd myfyriwr yn cydymffurfio â'r polisi hwn, efallai y caiff ei dd/disgyblu. Hefyd, bydd y rhai nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau ddi-fwg yn cyflawni trosedd ac efallai y byddant yn cael hysbysiad cosb benodedig.

## 7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

- Polisi Gyrru yn y Gwaith
- Polisi Camymddwyn Anacademaidd Myfyrwyr

Awdur(on) y polisi: **CRAIG JONES** Teitl y Swydd: **PENNAETH IECHYD A DIOGELWCH**

Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y Newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Polisi wedi'i ail-ddrafftio i adlewyrchu polisi sy'n berthnasol i holl gampysau Cymru a thu allan i Gymru. | Craig Jones | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws cyfredol y Polisi: ~~drafft /~~ wedi'i gymeradwyo*
Ydy'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: ~~AB~~ / AU / ~~AB ac AU~~*
Dyddiad cadarnhau: 14/10/2022**
Effeithiol o: 14/10/2022**
Dyddiad adolygu'r polisi: 01/09/2023**
I'w gyhoeddi: ar wefan Y Drindod Dewi Sant ~~/ MyDay / Ddim i'w gyhoeddi.~~

*Dileer fel y bo'n briodol
** ychwaneger pan fydd ar gael

**Cymeradwyo**
*Caiff y polisi ei ystyried a'i gymeradwyo'n ffurfiol yn unol â'r Cylch Gorchwyl Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghoriad yn JCC.  Hefyd, bydd AD yn darparu cyngor ar y cyfnod mwyaf addas i ymgynghori â JCC ac ynghylch p'un a oes angen cymeradwyaeth y Cyngor*

*Rhaid i'r canlynol fod ynghlwm wrth BOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*
- *Asesiad o'r Effaith Sefydliadol*
- *Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd*

*Cyn ei gyflwyno i bwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio yn cwblhau'r adran isod.*

---

***I'w gwblhau gan y Tîm Polisi a Chynllunio***

*Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:*
*Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith Sefydliadol* ☒
*Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb* ☒
*Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd* ☒
*Materion i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried:*